



Cael gfael ar arian parod yn ddiogel - cyngor i bobl hŷn yn ystod Covid 19

Un o'r nifer o bryderon sy'n wynebu pobl hŷn ar hyn o bryd yw'r gallu i gael mynediad at arian parod a thalu am nwyddau a gwasanaethau bob dydd wrth iddynt ddilyn cyngor y llywodraeth ac aros gartref.

Rydym yn cyfathrebu â channoedd o bobl hŷn bob dydd trwy ein gwasanaeth sgwrs sut hwyl ar gyfer pobl ynysig dros 70 oed. Mae ein gwasanaethau Cyngor arferol hefyd wedi cyhoeddi datganiad byr i gefnogi pobl hŷn.

Eglura Victoria Lloyd, prif weithredwr Age Cymru: "Mae nifer o bobl hŷn wedi arfer cael mynediad at eu pensiwn neu fudd-daliadau o'u swyddfa'r post leol neu fanc stryd fawr, gan eu galluogi nhw i gael arian parod i dalu am nifer o eitemau bob dydd, megis bwyd a dillad, yn ogystal â gwasanaethau megis glanhau a garddio.

"Fodd bynnag, yn unol â chyngor cyfredol y llywodraeth, mae pobl hŷn yn aros gartref ar hyn o bryd er mwyn cadw eu hunain yn ddiogel. Mae hyn yn golygu y mae'n bosibl y bydd gofyn iddynt ystyried ffyrdd eraill o gael mynediad at eu harian neu dalu am nwyddau a gwasanaethau. Ac wrth wneud hynny, rhaid iddynt hefyd sicrhau, cyn belled â phosibl, eu

bod yn diogelu eu hunain rhag troseddwy'r sy'n ceisio cymryd mantais o bobl hŷn sy'n ynysu eu hunain.

"Mae'r rhan fwyaf o'r prif swyddfeydd post a banciau yn dal i fod ar agor, felly efallai byddai'n syniad da rhoi galwad ffôn iddynt yn gyntaf i drafod pa ddulliau o gael mynediad at arian parod sy'n cyd-fynd â'ch anghenion orau."

Mae'r nodyn briffio canlynol yn darparu arweiniad ynglŷn â'r ffyrdd gwahanol y gallwch gael mynediad at arian parod i dalu am nwyddau a gwasanaethau.

Swyddfeydd Post

Os oes gennych Gyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post, cewch enwebu unigolyn dibynadwy fel Asiant Parhaol i dynnu arian ar eich rhan gan ddefnyddio ail gerdyn gyda'i rif PIN ei hun.

Mae'r gwasanaeth **Payout Now** yn galluogi banc i anfon taleb atoch chi dros e-bost, neges destun neu drwy'r post, y gallwch yna ei rhannu ag unigolyn dibynadwy i dynnu arian ar eich rhan.

Mae'r gwasanaeth **Fast PACE** yn caniatáu

deiliad cyfrif i enwebu rhywun i fancio un o'i sieciau ar ei ran. Bydd angen i'r unigolyn sy'n mynd i fancio'r siec ddangos prawf adnabod pan fydd yn cyrraedd y Swyddfa'r Post.

Banciau

Gallwch ofyn i'ch banc os cewch sefydlu **mandad trydydd parti**. Mae hyn yn eich caniatáu chi i enwebu unigolyn dibynadwy i gael mynediad at eich cyfrif, er mae'n bosibl y gallwch gyfyngu beth all y trydydd parti ei wneud. Er enghraifft, dim ond cael mynediad at wybodaeth, tynnu swm penodedig o arian, neu wirio balansau.

Mae **trosglwyddiadau arian** yn ffordd rhwydd o drosglwyddo arian o'ch cyfrif i gyfrif unigolyn arall am daliad, megis eich siopwr gwirfoddol. Gellir trefnu'r trosglwyddiad naill ai dros y ffôn neu fancio ar-lein. Bydd angen enw'r derbynnydd arnoch, enw ei fanc, ei god didoli chwe digid a rhif y cyfrif wyth digid a'r union swm i'w drosglwyddo.

Gellir defnyddio **sieciau banc** i dalu am wasanaethau bychain megis garddio ond mae'n bosibl nad ydynt yn gyfleus i ad-dalu siopwyr gwirfoddol gan y gallent gymryd sawl diwrnod i'w clirio ac, felly, yn gadael rhywun allan o boced.

Ffyrdd eraill o dalu am nwyddau a gwasanaethau

Mae **cardiau wedi'u rhagdal** yn gweithio mewn ffordd debyg i gardiau atodol ffôn symudol lle gellir ychwanegu arian at y cerdyn mewn Swyddfeydd Post, siopau sy'n dangos yr arwydd PayPoint, neu weithiau dros y ffôn neu ar-lein. Mae rhai cardiau wedi'u rhagdal yn eich caniatáu chi i ofyn am ail gerdyn i'w roi i gyfaill, aelod o'r teulu neu rywun arall yr ydych yn ymddiried ynddo. Bydd gan y cerdyn hwn ei rif PIN unigryw ei hun fel y gall rhywun sy'n eich helpu chi gyda'ch siopa dalu am eich nwyddau heb gael unrhyw effaith ar ei gyllid ei hun. Fodd bynnag, mae nifer o anfanteision,

oherwydd gall cardiau wedi'u rhagdal achosi costau megis ffioedd trafod neu ffioedd rheoli misol.

Yn aml, gellir archebu **talebau rhodd siopau** gan y rhan fwyaf o'r prif fanwerthwyr dros y ffôn, neu ar-lein. Gallwch eu rhoi i gyfeillion, teulu neu siopwr gwirfoddol dibynadwy. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd rhai manwerthwyr yn eich caniatáu chi i wario balansau bychain sy'n parhau ar y daleb rhodd felly mae'n bosibl y bydd rhaid i chi wario'r swm llawn mewn un tro.

Gwnewch eich hun yn fwy gwydn rhag sgamiau ariannol

Peidiwch byth â rhoi eich arian parod, cardiau neu fanylion banc i rywun arall, yn enwedig rhywun nad ydych yn ei adnabod. Mae nifer o ffyrdd eraill, mwy diogel, o dalu am nwyddau.

Byddwch yn wylidwrus o ddieithriaid sy'n gofyn am arian cyn i chi gael eich siopa. Yn hytrach, arhoswch gyda phobl yr ydych chi'n eu hadnabod, neu elusennau adnabyddus, lle gallwch wirio a ydynt yn gweithredu gwasanaethau siopa gwirfoddol yn eich ardal chi.

Cyn gwneud taliad am nwyddau, gwiriwch fod y swm y codir arnoch yn cyd-fynd â'r dderbynneb. Gallwch ofyn i'r gwirfoddolwr adael y dderbynneb yn y bag siopa.

I'ch helpu chi i gadw'n ddiogel, gofynnwch i'r siopwr adael y nwyddau ar eich hiniog a symud o leiaf dau fetr i ffwrdd cyn i chi agor y drws. Golchwch eich dwylo'n dda ar ôl trin y siopa.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r ffyrdd gorau o gael mynediad at arian parod yn ddiogel, ewch i: www.agecymru.org.uk/advice
